Ymatebion i'r Adolygiad o Ddosbarthau Pleidleisio **Atodiad B**

Etholaeth	**Cysylltiad â'r Dosbarth Pleidleisio**	**Llythrennau Dosbarth Pleidleisio**	**Sylwadau Cyflwyno**
Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr (enw newydd etholaeth Caerfyrddin)	Cynghorydd Lleol	EP ac EQ	Poeni am ddiffyg lleoedd parcio y tu allan i Dŷ Te – Ystafelloedd Te Cenarth
Llanelli	Cyngor Cymuned Lleol	GYNA a GYNB	Cefnogi'r cynigion mewn perthynas ag ardal Gymunedol Llandyfaelog.
Llanelli	Cynghorydd Lleol	PEMA-PEMD	Bodlon â'r gorsafoedd pleidleisio o fewn Ward Etholiadol Llwynhendy
Llanelli	Cynghorydd Lleol	PEMA-PEMD	Bodlon â'r gorsafoedd pleidleisio o fewn Ward Etholiadol Llwynhendy
Llanelli	Cyngor Cymuned Lleol	TYIA-TYIG	**TYIA** – Ward Etholiadol Tyisha – Sylwch, fel y cadarnhawyd yn flaenorol fod Canolfan Gymunedol Cyngor Tref Llanelli yng Nghanolfan Gymunedol Sant Barnabas, Stryd Llewellyn o dan brydles i'r Cyngor Tref. Daw'r brydles i ben ym mis Medi 2024 ac yn ddiweddar gwnaed y penderfyniad i beidio ag adnewyddu'r cytundeb hwn. Mae'n debygol felly y bydd y Ganolfan Gymunedol yn cau yn ystod Haf 2024. Byddwn yn

			rhoi gwybod i chi pan fydd dyddiad wedi'i gadarnhau. **TYIE a TYIF** – Ward Etholiadol Tyisha - Meithrinfa Ysgol Gynradd Bigyn, Penybigyn – Mae'r Cyngor Tref yn dymuno nodi ei bryder mewn perthynas ag addasrwydd yr orsaf bleidleisio hon oherwydd ei lleoliad ar ben bryn sy'n golygu bod pryderon mewn perthynas â hygyrchedd. Mae'r Cyngor Tref yn credu y dylid chwilio am leoliad arall ar gyfer gorsaf bleidleisio y dosbarth pleidleisio. Yn ystod y drafodaeth ar y mater codwyd Cwrt Waddle fel lleoliad arall posibl ynghyd ag awgrymiadau eraill. Fodd bynnag, awgrymir y dylid cynnal adolygiad i ddod o hyd i gyfleuster arall.